OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2578 (Cy.209)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim a Phwyllgorau Safonau) (Diwygio) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*19 Medi 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*25 Medi 2009*
Yn dod i rym - -	*19 Hydref 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 73, 77(4) a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(**2**), ac ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn unol â pharagraff 24 o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfod 2007(**3**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim a Phwyllgorau Safonau) (Diwygio) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 19 Hydref 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i wrandawiad gan—

(a) tribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim o dan Reoliadau'r Tribiwnlys Achos; a

(b) pwyllgor safonau o dan Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau,

sy'n dechrau ar neu ar ôl 19 Hydref 2009.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 2000 p. 22.
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) mae'r swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru.
(**3**) 2007 p. 15.

ystyr "Rheoliadau'r Pwyllgorau Safonau" ("*the Standards Committees Regulations*")yw Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001(**4**);

ystyr "Rheoliadau'r Tribiwnlysoedd Achos" ("*the Case Tribunals Regulations*") yw Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001(**5**).

Diwygio Rheoliadau'r Pwyllgorau Safonau

3. Diwygier Rheoliadau'r Pwyllgorau Safonau yn unol â rheoliad 4.

4.—(1) Yn rheoliad 4(4)(b), yn lle "gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru" rhodder "gan Weinidogion Cymru".

(2) Yn lle rheoliad 8(2) a (3) rhodder—

(2) Mae paragraffau (3) i (3CH) yn gymwys—

(a) mewn cysylltiad ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn achos o ymchwiliad yr ymgymerir ag ef gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac a gyfeiriwyd at swyddog monitro'r awdurdod perthnasol o dan adran 71(2) o Ddeddf 2000; a

(b) mewn cysylltiad â swyddog monitro'r awdurdod perthnasol mewn achos o ymchwiliad a gyfeiriwyd at y swyddog monitro o dan adran 70(4) o Ddeddf 2000.

(3) Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r swyddog monitro yr hawl i fod yn bresennol gerbron y Pwyllgor Safonau at ddibenion—

(a) cyflwyno'r adroddiad a/neu esbonio unrhyw un neu unrhyw rai o'r materion sydd ynddo; a

(b) fel arall chwarae'r cyfryw ran neu gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau ag y mae'r Pwyllgor Safonau yn ystyried ei bod yn briodol.

(3A) Caniateir i'r Pwyllgor Safonau wneud cais i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu'r swyddog monitro fod yn bresennol ger ei fron at ddibenion—

(a) cyflwyno'r adroddiad a/neu esbonio unrhyw un neu unrhyw rai o'r materion sydd ynddo; a

(b) fel arall chwarae'r cyfryw ran neu gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau ag y mae'r Pwyllgor Safonau yn ystyried ei bod yn briodol.

(3B) Rhaid peidio â gwrthod yn afresymol gais a wneir o dan baragraff (3A) ac os gwrthodir cais o'r fath rhaid i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu'r swyddog monitro roi rhesymau ysgrifenedig i'r Pwyllgor Safonau am beidio â chydymffurfio â'r cais i fod yn bresennol.

(3C) Bydd y presenoldeb hwnnw'n digwydd pan fydd Pwyllgor Safonau awdurdod perthnasol yn ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan y person sy'n destun yr ymchwiliad neu, os na wnaed sylwadau o'r fath, ar unrhyw adeg resymol.

(3CH) Caniateir i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r swyddog monitro gael eu cynrychioli gan gwnsler neu gan gyfreithiwr.".

(3) Yn rheoliad 10(2), yn lle "Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ" rhodder—

"Y Llywydd

Panel Dyfarnu Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Parc Cathays

(**4**) O.S. 2001/2281 (Cy.171) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/761 (Cy.65), 2005/2929 (Cy.214) a 2006/362 (Cy.48).
(**5**) O.S. 2001/2288 (Cy.176) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/362 (Cy.48).